Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

| | |
|---|---|
| **Diben y Senedd** | Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. |
| **Diben Comisiwn y Senedd** | Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. |

## Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

## Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Rhoi cymorth i Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau.
- Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu.
- Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.

- Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais.
- Annog ac ysbrydoli dinasyddion i fod yn rhan o'n trafodaethau ar-lein ac yn bersonol.
- Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sydd yn arwain drwy ragori fel sefydliad dwyieithog.

- Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn.
- Adeiladu a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau.
- Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd.
- Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian.
- Darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer gweithio ac ymgysylltu.

## Ein Gwerthoedd #UnTîm

**PARCH:**
Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.

**ANGERDD:**
Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

**BALCHDER:**
Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.